

Abladiad chwistrelliad dŵr drwy'r wrethra ar gyfer symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen

19 Medi 2018

Hyperplasia prostadol anfalaen yw pan fydd y prostad yn chwyddo ond nid o ganlyniad i ganser. Gall hyn flocio neu gulhau'r tiwb (wrethra) y mae wrin yn pasio drwyddo i adael y corff, gan achosi problemau wrth basio wrin. Gellir rhoi'r driniaeth hon o dan anesthetig cyffredinol neu anesthetig yn yr asgwrn cefn. Yn ystod y driniaeth hon, caiff ffrwd gyflym o ddŵr ei chwistrellu i mewn i'r prostad gan ddefnyddio stiliwr sy'n cael ei basio i fyny'r wrethra. Mae hyn yn chwalu rhywfaint o feinwe'r prostad, gan ei wneud yn llai.

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio i leddfu symptomau'r llwybr wrinol isaf. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthyich am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3092-0